OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 3242 (Cy. 329)

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU
# PENSIYNAU, CYMRU

## Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Rhagfyr 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Rhagfyr 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Rhagfyr 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 26(1) i (5) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947(**1**) ac adran 12 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972(**2**) fel y'i cymhwysir an adran 16(3)(**3**) o'r Ddeddf honno, ac a freinir bellach ynddynt hwy(**4**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 1947 p. 41, a ddiddymwyd gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno. Mae is-adrannau (1) i (5) o adran 26 yn parhau i gael effaith o ran Cymru at ddibenion y cynllun a sefydlwyd o dan yr adran honno, sef Cynllun Pensiwn y Dynion Tân, ac a bennir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992 (O.S. 1992/129), yn rhinwedd erthygl 3 o O.S. 2004/2918 (Cy. 257). Drwy erthygl 4 o'r offeryn hwnnw, newidiwyd enw'r Cynllun i Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru). Diwygiwyd adran 26 o Ddeddf 1947 gan nifer o wahanol Ddeddfau, ond nid yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1972 p. 11; diwygiwyd adran 12 gan Ddeddf Pensiynau (Darpariaethau Amrywiol) 1990 (p. 7).

(**3**) Diddymwyd adran 16 gan adran 52 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ac Atodlen 2 i'r Ddeddf honno, ond mae'n parhau i gael effaith o ran Cymru yn rhinwedd erthygl 3(2) o Orchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 O.S. 2004/2918 (Cy. 257).

(**4**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 26 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Yr oeddent wedi eu breinio'n flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler yr eitem ar gyfer Deddf y Gwasanaethau Tân 1947 yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), trosglwyddwyd y swyddogaethau i Weinidogion Cymru.